**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25.**

**This response was submitted to the Finance Committee consultation on the Welsh Government Draft Budget 2024-25.**

**WGDB_24-25 52: Comisiynydd y Gymraeg | Response from: Welsh Language Commissioner**

---

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

30/11/2023

Annwyl Gadeirydd,

**Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25**

Diolch ichi am y cyfle i gynnig sylwadau i'ch cynorthwyo gyda'r gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Mae fy sylwadau isod yn benodol yn ymwneud â'r angen i sicrhau bod eich gwaith craffu yn ystyried effaith penderfyniadau ynghylch dyraniad y gyllideb ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Nid yw'r meysydd y mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'u nodi fel rhai y dymuna i'r gwaith craffu ganolbwyntio arnynt yn cynnwys y Gymraeg yn benodol. Fodd bynnag, credaf y byddai gan nifer o'r feysydd ddylanwad ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac mae angen sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth eu trafod yng nghyd-destun y gyllideb. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- **Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau a'r angen i roi digon o adnoddau i lywodraeth leol fedru ymdrin â phwysau cynyddol**

Mae gofyn i fwy na 120 o sefydliadau cyhoeddus weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg felly mae angen sicrhau bod cyllid digonol ar eu cyfer i'w galluogi i weithredu yn unol â'r gofynion statudol hynny. Yn eu plith mae pob un o awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol Cymru. Mae gofyn iddynt hwy yn benodol lunio strategaethau 5 mlynedd ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu hardaloedd. Mae angen sicrhau bod ganddynt gyllideb ddigonol er mwyn eu galluogi i weithredu amcanion eu strategaethau er budd hyfywedd y Gymraeg yn eu cymunedau.

- **yr angen i wasanaethau gydweithredu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol**

Yn ogystal â'r awdurdodau lleol y cyfeiriwyd atynt uchod mae gofyn i bob bwrdd iechyd gydymffurfio â safonau'r Gymraeg gan gynnwys safon penodol (safon 110) sy'n ei gwneud yn

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

ofynnol iddynt lunio cynllun ar gyfer darparu gofal clinigol i gleifion. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi llunio cynllun gweithredu ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector iechyd a gofal sef *Mwy na geiriau*. Gan dderbyn bod pwysau mawr ar wasanaethau iechyd a gofal, mae'n hanfodol bod adnoddau digonol ar gael i alluogi cyrff i weithredu safonau'r Gymraeg a chamau gweithredu *Mwy na geiriau* fydd yn arwain at well gofal a chanlyniadau i bobl sydd angen derbyn gofal yn y Gymraeg.

- **sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb; pa effaith y mae pwysau chwyddiant yn ei chael ar gyllidebau refeniw a chyfalaf a sut mae hyn wedi newid ffforddiadwyedd cynlluniau blaenorol**

Wrth graffu ar gyllideb 2023-24 nododd eich y Pwyllgor 'bryder – o ystyried y pwysau chwyddiant presennol – y bydd yn rhaid i sefydliadau gyflawni llai nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd' ac 'os yw Llywodraeth Cymru o ddifri am gyrraedd targed Cymraeg 2050, y bydd angen iddi sicrhau bod y sefydliadau hynny sy'n cefnogi cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn y gymuned yn cael adnoddau a chefnogaeth ddigonol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd difreintiedig a'r mannau hynny lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad mor eang, yn enwedig o ystyried y pwysau costau a berir gan chwyddiant a chynnydd mewn costau byw.' Rwyf o'r farn fod y sylwadau hyn yn parhau yn berthnasol wrth graffu ar gyllideb 2024-25. Yn ychwanegol at bwysau chwyddiant rhaid cofio mai dyma gyllideb gyntaf Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021. Dylid defnyddio tystiolaeth y cyfrifiad ynghylch sefyllfa'r Gymraeg wrth bennu blaenoriaethau'r Llywodraeth. Er fy mod o'r farn fod canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn portreadu darlun mwy cymhleth na'r ffigurau moel, erys y ffaith eu bod yn dangos y nifer a'r ganran isaf (538,300, 17.8%) o siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd erioed ac y gwelwyd y gostyngiad mwyaf sylweddol yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn siroedd gorllewin Cymru sef cadarnleoedd y Gymraeg yn draddodiadol. Mae'n glir felly nad dyma'r amser i geisio canfod arbedion o fewn cyllideb y Gymraeg. Bydd angen i gyllideb 2024-25 fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg sy'n cael eu hamlygu gan y cyfrifiad a sicrhau bod buddsoddiad digonol ar gael i alluogi gwireddu amcanion Strategaeth Cymraeg 2050. Mae'n bryder gennyf beth fydd effaith pwysau chwyddiant ar allu nifer o'r partneriaid sy'n cyfrannu'n lleol ac yn genedlaethol at weithredu Strategaeth Cymraeg 2050, a beth fydd yr effaith ar allu Llywodraeth Cymru i wireddu'r cynlluniau sy'n rhan o'r strategaeth. Mae angen sicrhau hefyd fod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio yn llawn ac yn derbyn cefnogaeth ddigonol yn ffrydiau ariannu eraill y Llywodraeth nad ydynt yn uniongyrchol yn ymwneud â'r Gymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner


- **yr angen i roi mwy o gymorth i'r rhai sy'n astudio ac yn gweithio yn y sector addysg**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn ar addysg Gymraeg yn ystod 2023, a'r bwriad yw y bydd yn cyflwyno deddfwriaeth gerbron Senedd Cymru yn 2024. Mae'r papur gwyn yn cynnig gweledigaeth uchelgeisiol i osod mewn deddfwriaeth y disgwyliad y bydd holl blant Cymru yn gadael yr ysgol yn siarad Cymraeg yn hyderus gan osod y Gymraeg, a dysgu'r Gymraeg, fel rhan greiddiol o addysgu plant a phobl ifanc Cymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cefnogi gweithgareddau fydd yn cyfrannu at weithredu gweledigaeth y papur gwyn. Rhaid sicrhau bod cyllideb 2024-25 yn ddigonol i alluogi parhau a chynyddu'r mentrau hyn er mwyn arwain at gyflawni gweledigaeth y papur gwyn. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun y gweithlu addysg lle credaf fod angen buddsoddiad sylweddol i ddatblygu'r gweithlu addysg yn y tymor byr er mwyn gwireddu bwriadau'r papur gwyn pan ddaw yn fater o ddeddfu yn ddiweddarach.

Mae rhai o'r materion eraill y mae'r Pwyllgor Cyllid yn awyddus i'w hystyried yn cynnwys adnoddau i gefnogi adferiad economaidd, a pholisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac effaith yr argyfwng costau byw gan gynnwys canfod atebion dan arweiniad y gymuned i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi ac anghydraddoldeb. Mae'n glir imi y byddai adferiad economaidd a lleihau tlodi ac effaith yr argyfwng costau byw yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lle mae'r Gymraeg yn parhau yn iaith gymunedol fyw ond yn wynebu shifft ieithyddol i'r Saesneg. Ategir hyn gan waith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a nododd yn ei bapur safbwynt a gyhoeddwyd ym mis Mehefin bod angen ystyried amrywio mewn meysydd sosioeconomaidd a sosioieithyddol er mwyn sefydlogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn yr ardaloedd hyn. Dylid sicrhau felly bod y Gymraeg a'i defnydd fel iaith gymunedol yn cael eu hystyried wrth ystyried effaith penderfyniadau ynghylch adferiad economaidd a lleihau tlodi ac anghydraddoldeb.

Gobeithio y bydd y sylwadau hyn o ddefnydd ichi wrth ichi graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Yr eiddoch yn gywir,



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner